Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)





Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**.
Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**'.

**Hydref 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 41**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau

**E-bost:** SUSRWales@gov.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl o'r fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Tudalen


Cyflwyniad....................................................................4

Pam rydyn ni wedi creu ADUS..........................................10

Pryd i wneud ADUS.........................................................11

Sut i wneud ADUS...........................................................16

Pwy sydd yn gwneud ADUS..............................................18

Cynnwys teulu ac unigolion allweddol mewn ADUS....25

Camau ADUS...................................................................33

Sut i ddysgu o ADUS........................................................35

Diogelu gwybodaeth bersonol.........................................37

Gwneud ADUS ar hen achosion.......................................38

Prosesau eraill.................................................................39

Geiriau anodd..................................................................40

# Cyflwyniad




Mae angen i ni wella'r dysgu o adolygiadau **diogelu** yng Nghymru.

Mae **diogelu** yn meddwl amddiffyn iechyd, llesiant a hawliau dynol person. Yn enwedig plant ac oedolion sydd fwyaf mewn perygl. I wneud yn siŵr eu bod yn gallu byw yn rhydd o gamdriniaeth a niwed.



Pan mae plentyn neu oedolyn rydyn ni yn eu **amddiffyn** yn cael niwed, rhaid inni edrych ar beth sydd wedi digwydd.



Rhaid inni gydweithio i weld a ellid bod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol i atal y niwed rhag digwydd.



Mae hyn yn cael ei alw yn **adolygiad diogelu**.



Yn y gorffennol pan oedd problem **diogelu** yn digwydd, roedden ni'n cael llawer o gyfarfodydd i siarad amdano.



Fe wnaethon ni ddarganfod bod cael llawer o gyfarfodydd am bynciau anodd yn gwneud i bobl deimlo yn:


- Ypset



- Blinedig
- Rhwystredig



Roedd hyn yn annheg i'r bobl oedd yn cymryd rhan. Roedden ni eisiau gwneud y broses yn fwy hawdd iddyn nhw.




Felly fe wnaethon ni ddatblygu'r **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)**. Ffordd o ddelio gyda phroblemau diogelu.

Rhai o nodau **ADUS** ydy:



- Gwneud 1 broses adolygiad **diogelu** i bawb yng Nghymru ei dilyn.




- Dod â llawer o bobl broffesiynol i **1 cyfarfod** i siarad am broblemau **diogelu**. Yn lle cael llawer o gyfarfodydd.



- Gwneud bywyd yn fwy hawdd i deuluoedd neu'r rhai sydd wedi dioddef. Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw lai o gyfarfodydd i fynd iddyn nhw.



- Gwneud pethau yn fwy cyflym heb golli ansawdd.



- Gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud pethau yn well yn y dyfodol.



- Gwneud yn siŵr bod gan staff gefnogaeth mawr ei angen gan reolwyr.



- Gwneud yn siŵr bod  staff yn deall yr effaith mae sefyllfaoedd anodd yn ei gael ar deuluoedd.




- Gwneud yn siŵr ein bod yn dysgu o achosion cymhleth.



Er  mwyn cyflawni ein nodau ar gyfer yr **ADUS** rydyn ni wedi creu rhwydwaith cymorth.

**Fe fydd y rhwydwaith cymorth yn cynnwys:**




- Fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiadau am bethau sydd wedi mynd yn anghywir neu'n gywir yn fwyaf aml. A'r problemau mae wedi eu creu neu bethau sydd wedi mynd yn dda.

Storfa Ddiogelu Cymru
Wales Safeguarding Repository

- Fe fydd **man** lle bydd yr holl adroddiadau **ADUS** gorffenedig yn cael eu cadw. Fe fydd gweithwyr proffesiynol yn gallu darllen yr adroddiadau yma yn y gorffennol i'w helpu i ddysgu.




- **Tîm**  fydd yn gwneud yn siŵr ein bod ni yn dysgu o bethau sydd wedi mynd o'i le neu'n dda. . Fe fyddan nhw yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod pawb yn dysgu oddi wrth hen adolygiadau.



Fe fyddan nhw yn rhoi hyfforddiant ac yn cynnal digwyddiadau i rannu'r ffyrdd gorau o weithio a'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu ar draws Cymru.



- **Bwrdd** a fydd yn cysylltu beth rydyn ni wedi ei ddysgu gyda pholisïau a chynlluniau yng Nghymru. Fe fyddan nhw yn cefnogi newidiadau i'r gyfraith ac yn cael y pethau rydyn ni eu hangen i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffyrdd gorau.





Fe fyddan nhw yn siarad am broblemau difrifol sydd angen delio gyda nhw ar lefel cenedlaethol a DU.

# Pam rydyn ni wedi creu ADUS




Rydyn ni wedi creu **ADUS** i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed yn y dyfodol.



Rydyn ni eisiau gwneud y broses **diogelu** yn well. A'i gwneud yn fwy hawdd i ddysgu o achosion.



Dydy **ADUS** ddim am weld bai. Maen nhw i wneud yn siŵr ein bod ni'n dysgu o bob achos.



Nid oes bai ar **ADUS**. Oherwydd dyna sut fyddwn ni yn gwneud pethau yn well.



Mae hefyd yn bwysig bod pobl sydd wedi cael eu anafu a'u teuluoedd yn cael dweud eu dweud. Oherwydd bod eu llais yn bwysig.

# Pryd i wneud ADUS



Fyddwn ni ddim yn gwneud **ADUS** i bawb sydd wedi cael eu hanafu. Fe fyddwn ni yn gwneud **ADUS** pan:



Rydyn ni'n meddwl bod plentyn neu oedolyn mewn perygl wedi cael eu **cam-drin** neu eu **esgeuluso.**



**Cam-drin** ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg. Mae gwahanol fathau o **gam-drin**.



Mae **esgeulustod** yn fath o **gam-drin**. Mae'n meddwl bod rhywun heb roi'r gofal rydych chi ei angen i chi.



Ac maen nhw wedi marw neu bron wedi marw. **Neu** os ydyn nhw wedi cael niwed mewn ffordd ddrwg iawn.



Fe fyddwn ni hefyd yn edrych i weld os oedden ni'n gwybod am y plentyn neu'r oedolyn yma mewn perygl o'r blaen.



Ac os ddylen ni fod wedi gwneud rhywbeth gwahanol i'w cadw nhw'n ddiogel.



**Fe fyddwn ni yn gwneud ADUS pan:**



Mae **lladdiad domestig** rhywun dros 16 oed wedi digwydd.

**Lladdiad domestig** ydy pan mae rhywun wedi cael eu lladd gan berson sydd yn perthyn iddyn nhw, neu wedi cael perthynas gyda nhw. Gair arall am lofruddiaeth yw lladdiad.



Ac rydyn ni'n meddwl bod y person wedi marw o drais, **camdriniaeth** neu **esgeulustod** gan rhywun sydd yn perthyn iddyn nhw, neu wedi cael perthynas gyda nhw.



Byddwn hefyd yn gwneud **ADUS** os bydd rhywun yn marw drwy **hunanladdiad**. Ac rydyn ni'n meddwl eu bod wedi gwneud hynny oherwydd bod rhywun yn gwneud niwed iddyn nhw.



**Hunanladdiad** ydy beth fyddwn ni yn ei alw pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.




Mae gennym ni reolau i'w dilyn wrth adolygu **lladdiadau domestig**.



**Fe fyddwn ni yn gwneud ADUS pan:**




- mae **lladdiad** wedi digwydd



- **ac** mae'r **cyflawnwr** yn rhywun sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn y flwyddyn ddiwethaf.



**Cyflawnwr** ydy rhywun sydd yn gwneud gweithredoedd niweidiol neu anghyfreithlon.




Mae hyn yn cael ei alw yn **lladdiad iechyd meddwl**. Rhaid inni adrodd **lladdiadau iechyd meddwl** i Lywodraeth Cymru.

AAc ar ôl yr **ADUS** rhaid inni adrodd beth rydyn ni yn ei ddarganfod i **GIG Cymru**.



Os nad oes angen **ADUS**, fe ddylai'r bwrdd iechyd ddal i ymchwilio i'r **lladdiad**.

# Sut i wneud ADUS



Mae **Byrddau Diogelu** yn goruchwylio **diogelu** yn eu hardal. Mae 6 yng Nghymru. Fe fydd **Byrddau Diogelu** yn rheoli'r adolygiadau yn eu hardal. Fe fydd **Byrddau Diogelu** yn llunio **Grŵp Adolygu Achosion**.

Fe fydd y Grŵp Adolygu Achosion yn penderfynu a ddylid cynnal Adolygiad a sefydlu Panel Adolygu. Bydd y Panel Adolygu yn:





- Siarad gyda'r plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg os ydyn nhw eisiau cymryd rhan. Ac i aelodau eu teulu.




- Siarad gyda staff sydd wedi bod yn gweithio gyda'r plentyn neu oedolyn mewn perygl.




- Gwneud yn siŵr bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn, A bod staff yn dysgu oddi wrth yr achos.




- Anfon adroddiad yn ôl i'w **Bwrdd Diogelu**. Gyda chynllun gweithredu.



Fe fydd y **Bwrdd Diogelu** yn darllen yr adroddiad a'r cynllun gweithredu. Ac yn penderfynu beth sydd angen digwydd nesaf.




Ddylai'r broses yma ddim cymryd mwy na 12 mis.



Yna fe fydd y **Bwrdd Diogelu** yn gwneud yn siŵr bod y bobl gywir yn darllen yr adroddiad. A chael cyfle i ddysgu o hynny.




Fe fyddan nhw yn dilyn y cynllun gweithredu i wella pethau.

Storfa Ddiogelu Cymru
Wales Safeguarding Repository

Mae holl adroddiadau **ADUS** yn cael eu storio yn **Storfa Diogelu Cymru (WSR)**. Mae eu storio mewn un lle yn ei gwneud hi'n haws i bawb ddod o hyd iddyn nhw.

# Pwy sydd yn gwneud ADUS



Mae'n bwysig bod y bobl gywir yn gwneud **ADUS**. A'u bod yn gwybod beth ydy eu rolau.

Fe fydd y bobl yma yn cymryd rhan mewn **ADUS**:



- **Y Grŵp Adolygu Achos**
- **Y Panel Adolygu a'r Cadeirydd**
- **Yr Adolygydd**



- **Y Bwrdd Diogelu a'r Cadeirydd**
- **Bwrdd Gweinidogion ADUS Cymru**



- **Hwb Cydlynu ADUS**
- **Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.** Os oes angen.

## Y Grŵp Adolygu Achos



Mae'r grŵp adolygu achos yn penderfynu a oes angen **ADUS**. Yna maent yn gwirio ddwywaith gyda chadeirydd y Bwrdd Diogelu.



Pan mae mwy nag un Bwrdd yn cymryd rhan fe fyddan nhw yn gwneud yn siŵr bod yr holl fyrddau yn gweithio gyda'i gilydd yn iawn.



Pan mae mwy nag un plentyn neu oedolyn mewn perygl dan sylw, fe fyddan nhw yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn deg.

## Cadeirydd y Bwrdd Diogelu



Fe fydd cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn gwneud y penderfyniad terfynol am wneud **ADUS**.

## Y Panel Adolygu



Fe fydd Cadeirydd y Panel Adolygu yn gwneud yn siŵr bod yr Adolygiad yn aros ar y trywydd iawn unwaith y bydd yn dechrau.



Mae'r panel adolygu yn rheoli'r broses adolygu. Ac yn cael yr holl wybodaeth am yr achos at ei gilydd.



Maen nhw hefyd yn gwneud yn siŵr bod pawb yn dysgu o'r adolygiad.



Fe ddylai pob panel adolygu fod yn weithwyr proffesiynol. Ac fe ddylai fod yr un grŵp o bobl drwy'r holl adolygiad.




Ond ddylen nhw ddim fod wedi cael unrhyw beth i'w wneud gyda'r achos cyn hynny.

## Yr Adolygydd



Mae'r adolygydd yn siarad gyda'r holl bobl sydd yn rhan o'r achos.




Yr adolygydd sydd yn ysgrifennu'r adroddiad terfynol. Ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei rannu gyda'r bobl gywir.

## Y Bwrdd Diogelu



Mae **Byrddau Diogelu** yn cysylltu beth rydyn ni yn ei ddysgu gyda pholisïau a chynlluniau yng Nghymru.



Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pob **ADUS** yn cael eu gwneud yn gywir. A bod camau yn digwydd i wella pethau.

**Pwrpas y bwrdd ydy:**



- Gwybod am yr holl adolygiadau sydd yn digwydd yng Nghymru. A gwneud yn siŵr bod pawb yn eu gwneud yn yr un ffordd.



- I helpu gydag unrhyw adolygiadau anodd.




- I feddwl am unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r gyfraith.



- I wella **diogelu** ar draws Cymru.

**Rôl yr hwb ydy:**



- Creu rhestr o gadeiryddion ac adolygwyr wedi eu hyfforddi sydd yn gallu gweithio ar **ADUS**.





- Gofalu am yr arian sydd ei angen i wneud **ADUS**.

Storfa Ddiogelu Cymru
Wales Safeguarding Repository

- Casglu gwybodaeth am adolygiadau. A storio **ADUS** wedi eu gorffen yn y **Storfa Diogelu Cymru**. Mae **Storfa Diogelu Cymru** wedi cael ei greu fel lle i storio holl adroddiadau **ADUS** .



- Rhedeg digwyddiadau hyfforddi ar draws Cymru. A rhannu beth mae pobl wedi ei ddysgu.



- Gweld beth sydd angen ei wneud ar ôl adolygiad. A gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd.

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol





Mae'r rheolau ychydig yn wahanol ar gyfer **lladdiadau domestig**.




Mewn achosion o'r fath fe ddylai rhywun o'r **bartneriaeth diogelwch cymunedol** ymuno gyda'r **ADUS** hefyd.



Mae cadeirydd y Bwrdd Diogelu a pherson o'r **bartneriaeth diogelwch cymunedol** yn penderfynu gyda'i gilydd a oes angen **ADUS**.



Fe fyddan nhw yn rhoi gwybod i'r **Swyddfa Gartref** beth maen nhw yn ei benderfynu. Ac yn rhoi gwybod i deulu'r dioddefwr hefyd.




Unwaith mae'r adolygiad wedi gorffen fe ddylai'r adolygydd anfon yr adroddiad terfynol i'r **Swyddfa Gartref**.

# Cynnwys teulu ac unigolion allweddol mewn ADUS

Am bob adolygiad rydyn ni yn eu gwneud fe fydd angen cynnwys gwahanol bobl. Maen nhw’n gallu bod yn:



- Aelodau allweddol o’r teulu
- Y dioddefwr



- **Y cyflawnwr**
- Ffrindiau



- Staff cymunedol
- Cymdogion



- Cydweithwyr
- Cyflogwyr



Rydyn ni  wedi creu rhai canllawiau ar gyfer hyn:



- Fe fyddwn ni yn cysylltu â theuluoedd ac unigolion allweddol cyn gynted â phosibl. Fe fyddan nhw yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy’n digwydd yn yr adolygiad, os mai dyna maen nhw eisiau.



- Bydd teuluoedd ac unigolion allweddol yn cael gwybod am y broses a beth fydd yn digwydd.



- Byddwn yn darparu person cyswllt i deuluoedd ac unigolion allweddol.




- Byddwn yn cefnogi teuluoedd ac unigolion allweddol drwy’r broses adolygu.



- Fe fyddwn ni yn defnyddio iaith hawdd ei deall drwy'r amser.




- Fe fyddwn ni yn cyfathrebu yn yr iaith o'ch dewis chi.



- Os ydy teuluoedd ac unigolion allweddol yn teimlo nad ydy'r adroddiad yn hollol gywir, maen nhw'n gallu awgrymu newidiadau.



- Fe ddylai teuluoedd ac unigolion allweddol wybod pwy i gysylltu gyda nhw os nad ydy'r canllawiau yma yn cael eu dilyn.

# Pan mae'r adolygiad am blentyn neu oedolyn mewn perygl



Yn y gorffennol, doedd plant ac oedolion iau ddim bob amser yn cael cyfle i gymryd rhan mewn adolygiadau.



Yn ein profiad ni mae'n well os ydy pawb yn cael eu cynnwys.



Fe fydd yr **adolygydd** yn ceisio gwneud ffyrdd gwahanol o weithio i gynnwys teuluoedd ac unigolion allweddol.




Fe fyddwn ni yn rhoi adborth o adroddiadau i deuluoedd ac unigolion allweddol yn y fformat maen nhw eisiau.

# Pan mae lladdiad domestig wedi digwydd




Rydyn nin teimlo y byddai'n syniad da siarad gydag aelodau teulu a ffrindiau ar ôl **lladdiad domestig**.


Manteision cynnwys teulu a ffrindiau ydy:



- Helpu i gefnogi dioddefwyr trosedd. Eu helpu nhw i wella cystal ag maen nhw'n gallu.



- Rhoi cyfle i'r teulu gyfarfod y panel adolygu a chael eu lleisiau wedi eu clywed.



- Helpu teuluoedd i gael dweud sut rydyn ni'n gallu stopio **lladdiadau domestig**.



- Mae’r panel adolygu yn gallu gweld y dioddefwr ac/neu’r **cyflawnwr** drwy lygaid y teulu.




- Fe fydd teuluoedd yn gallu dweud enw gwahanol i’r dioddefwrsydd i’w ddefnyddio yn yr adroddiad. Mae hyn i stopio’r doddefwr rhag cael ei adnabod os mai dyna beth mae’r teulu eisiau.



Pan mae aelodau teulu yn cymryd rhan mewn adolygiad fe fydd cadeirydd y panel yn:



- Cynnig gwasanaethau **eiriolwr**.



**Eiriolydd** ydy rhywun sydd yn gweithio ac yn siarad i fyny i gefnogi person arall.



- Siarad gyda'r **eiriolydd** ar ran y tyeulu dan sylw.



- Fe fydd y cadeirydd yn meddwl am unrhyw anghenion ethnig, diwylliannol neu iaith y teulu.



- Fe fydd y cadeirydd yn esbonio sut y bydd cymryd rhan yn yr adolygiad yn helpu dioddefwyr eraill.

Weithiau mae lle i gredu bod **lladd ar sail anrhydedd** wedi digwydd.



**Lladd ar sail Anrhydedd** ydy pan fydd rhywun yn cael ei ladd oherwydd bod eu teulu'n credu eu bod wedi dwyn cywilydd ar y teulu.




Cyn cynnwys teuluoedd mewn adolygiadau, rhaid nodi pob risg. Rhaid inni feddwl am yr effaith fydd cynnwys teulu a phartneriaid eraill ar y dioddefwr.



Weithiau fe fydd pobl sydd yn **lladd ar sail anrhydedd** yn dweud eu bod wedi gwneud hynny oherwydd eu diwylliant a'u gwerthoedd.



Rhaid i'r panel adolygu gael cyngor arbenigol a gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol a chyrff allanol.


# Camau ADUS

Mae llawer o gamau i fynd drwyddyn nhw i gwblhau **ADUS:**




## Llinellau amser

Mae llinellau amser yn dweud wrthyn ni beth sydd wedi digwydd a phryd.



Fe ddylai llinellau amser fynd yn ôl ddigon pell inni ddeall yr holl stori. Ond ddylen nhw ddim mynd yn ôl mwy na 12 mis yn y rhan fwyaf o achosion.

## Dogfennau eraill



Mae'n ddefnyddiol creu dogfen sydd yn dangos holl aelodau'r teulu mewn achos. A sut maen nhw'n perthyn i'w gilydd.





Efallai ein bod yn sylweddoli nad ydyn ni yn gallu gwneud adolygiad ar achos arbennig. Os ydyn ni'n stopio fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad i ddweud pam


## Dysgu o ADUS



Yn ystod proses **ADUS** fe fyddwn ni yn cynnal digwyddiad dysgu. Fel bod pawb sy'n cymryd rhan yn gallu trafod yr achos a dysgu oddi wrtho.



Fe fyddwn ni yn defnyddio hen achosion i'n helpu ni.




Ar ôl yr adolygiad fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad am beth rydyn ni wedi ei ddysgu.




Fe fyddwn ni hefyd yn ysgrifennu cynllun gweithredu. Fe fydd hwn yn dweud beth mae angen inni ei wneud i wella **diogelu**.



Mae'r broses yma yn bwysig iawn. Ac mae'n helpu pawb i wneud gwell gwaith yn y dyfodol.

# Sut i ddysgu o ADUS



Rhan mwyaf pwysig **ADUS** ydy beth rydyn ni'n gallu ei ddysgu oddi wrthyn nhw.



Fe fydd hyn yn helpu i gadw plant ac oedolion mewn perygl yn fwy diogel yn y dyfodol.

Storfa Ddiogelu Cymru
Wales Safeguarding Repository

Mae **Storfa Diogelu Cymru (WSR)** wedi cael ei greu fel lle i storio holl  adroddiadau **ADUS**. Mae storio pob adroddiad mewn un lle yn ei gwneud hi'n haws i bawb ddysgu oddi wrthyn nhw.



Fe fydd yr **Hwb Cydylynnu ADUS** yn defnyddio'r **Storfa** i ddeall pa achosion sydd yn digwydd yng Nghymru. A gweld sut rydyn ni'n gallu gwneud **diogelu** yn well.



Fe fydd **Hwb Cydlynu ADUS** yn cynllunio digwyddiad mawr i rannu beth rydyn ni wedi'i ddysgu bob 6 mis.



Mae **Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPFs)** yn ddigwyddiadau i rannu gwybodaeth a dysgu o ddigwyddiadau sydd ddim yn cael eu hadolygu ond sydd yn gallu helpu gyda dysgu. Maen nhw yn cael eu trefnu gan y **Byrddau Diogelu**.



Mae **MAPFs** yn  rhoi cyfle i bawb siarad am ddigwyddiadau sydd ddim yn cael eu hadolygu ond sydd yn gallu helpu gyda dysgu a dysgu oddi wrth ei gilydd.



Mae **MAPFs** yn helpu i gadw plant ac oedolion mewn perygl yn fwy diogel yn y dyfodol.



Fe ddylai unrhyw beth newydd rydyn ni yn ei ddysgu o **MAPFs** gael ei rannu gyda gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru.


# Diogelu gwybodaeth bersonol




Fe fydd rhywfaint o wybodaeth bersonol pobl yn cael ei rannu mewn **ADUS**.




Ond fe ddylai gwybodaeth bersonol pobl gael ei ddiogelu cymaint â phosibl.




Er enghraifft, fe ddylen ni ddefnyddio enwau ffug mewn adroddiadau i amddiffyn pobl.



Ac fe ddylen ni wneud yn siŵr bod adroddiadau a dogfennau yn cael eu cadw yn rhywle diogel.



Efallai y bydd angen inni ddweud wrth bobl pa wybodaeth sydd gennym ni amdanyn nhw.




Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn dilyn y gyfraith.

# Gwneud ADUS ar hen achosion



Ni ddylid gwneud adolygiadau ar bob achos.



**Byrddau** sy'n penderfynu pa achosion fydd yn cael eu hadolygu. A pha rai fydd ddim.



Weithiau mae **Byrddau** yn  penderfynu y byddai'n ddefnyddiol gwneud **ADUS** ar hen achos.



Maen nhw'n gwneud hyn os ydyn nhw'n meddwl ein bod ni yn gallu dysgu llawer o'r achosion yma.




Rydyn ni'n dilyn yr un rheolau ar gyfer **ADUS** hyd yn oed os ydyn nhw wedi digwydd amser hir yn ôl.

# Prosesau eraill



Mae **ADUS** am ddysgu a gwneud gwelliannau.



Dydy **ADUS** ddim am gosbi staff am wneud camgymeriadau.




Yn ystod **ADUS**, efallai y byddwn yn sylweddoli bod staff wedi gwneud rhywbeth yn anghywir., Neu eu bod nhw wedi torri'r gyfraith.



Efallai bydd angen inni siarad gyda'r heddlu.



Ond ddylai hyn ddim ein stopio ni rhag gwneud yr **ADUS**.




Os ydy rhywun yn cwyno. Mae gennym ni broses gwynion y dylid ei dilyn.

# Geiriau anodd

### Cam-drin

Cam-drin ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg. Mae gwahanol fathau o gam-drin.

### Cyflawnwr

Dyma rhywun sydd yn gwneud pethau niweidiol neu anghyfreithlon.

### Diogelu

Mae hyn yn meddwl diogelu iechyd, llesiant a hawliau dynol person.

### Eiriolydd

Rhywun sydd yn gweithio ac yn siarad i fyny dros berson arall.

### Esgeulustod

Dyma fath o gam-drin. Mae'n meddwl nad ydy rhywun wedi rhoi'r gofal rydych chi ei angen i chi.

### Lladd ar sail anrhydedd

Lladd ar sail Anrhydedd ydy pan fydd rhywun yn cael ei ladd oherwydd bod eu teulu'n credu eu bod wedi dwyn cywilydd ar y teulu.

## Lladdiad domestig

Lladdiad domestig ydy pan mae rhywun wedi cael eu lladd gan berson sydd yn perthyn iddyn nhw, neu wedi cael perthynas gyda nhw. Gair arall am lofruddiaeth yw lladdiad.

## Hunanladdiad

Hunanladdiad ydy beth fyddwn ni yn ei alw pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.